

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT
(CYMRU) 2014

Adnoddau i gefnogi'r gwaith o
hyrwyddo a datblygu mentrau
cymdeithasol, mentrau cydweithredol,
gwasanaethau sy'n cael eu harwain
gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector



Deall y Ddeddf

#DeallyDdeddf

www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

Mae gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn am newidiadau arwyddocaol iawn i'r ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu cynllunio, eu comisiynu a'u darparu, a bydd yn golygu y bydd mwy o bwyslais ar:

- atal ac ymyrryd yn gynnar
- hyrwyddo llesiant a sut y mae gwasanaethau yn helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- cydgynhyrchu – dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn rhannu pŵer a gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal, gan weld pobl fel asedau, a 'gweithio gyda, nid i'
- gweithio a chydweithrediad aml-asiantaethol

Gan adlewyrchu'r egwyddorion hyn, mae **Rhan 2, Adran 16** o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol ar gyfer oedolion, plant, pobl ifanc, gofawyr, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau lleol hyrwyddo cyfranogiad y bobl y darperir y gofal a'r cymorth a'r gwasanaethau ataliol ar eu cyfer, wrth eu trefnu, eu cynllunio a'u gweithredu.

DIFFINIADAU CRYNO:

Mae **menter gymdeithasol** yn fusnes sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf, gydag elw'n cael ei ail-fuddsoddi yn ei wasanaethau neu'r gymuned.

Mae **menter gydweithredol** neu **drefniant cydweithredol** yn sefydliad neu grŵp o bobl sy'n gweithredu'n annibynnol ac yn wirfoddol i ddiwallu anghenion a dyheadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin.

Mae **gwasanaeth sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr** yn un sy'n cael ei redeg a'i reoli gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Mae'r **trydydd sector** yn cynnwys pob math o sefydliadau amrywiol. Maent yn gyrff anllywodraethol annibynnol bob amser, a sefydlwyd yn wirfoddol gan bobl sy'n dymuno cyflawni nodau cymdeithasol.

Nod y ddyletswydd yw ehangu'r detholiad o fodolau gwasanaeth dielw yn y sector gofal cymdeithasol. Y bwriad yw cynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael, manteisio ar arloesedd a chreadigrwydd a'u cefnogi a chynyddu cydnerthedd cymunedol.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyrwyddo'r mathau hyn o sefydliadau ac yn rhoi rhagor o wybodaeth am adnoddau perthnasol a dolenni iddynt.

Beth mae'r côdau ymarfer a'r canllawiau yn dweud am y sefydliadau hyn?

Côd Ymarfer a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Pennod 4 y Côd Ymarfer yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector mewn perthynas â'r Ddeddf.

Mae'n rhoi cyflwyniad i nod a chwmpas Rhan 2, Adran 16 o'r Ddeddf sy'n cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw yn eu hardaloedd i ddarparu gofal a chymorth a chefnogaeth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol. Rhaid hefyd i awdurdodau lleol hyrwyddo cyfranogiad pobl y darperir y gwasanaethau gofal a chymorth a'r gwasanaethau ataliol hyn ar eu cyfer, wrth gynllunio a gweithredu'r ddarpariaeth honno.

Mae'r ddyletswydd i hyrwyddo yn golygu bod 'rhaid i awdurdodau lleol fynd ati'n rhagweithiol i gynllunio a chyflwyno modelau a fydd yn diwallu anghenion lles pawb – plant, pobl ifanc ac oedolion – wrth hyrwyddo modelau sy'n seiliedig ar werthoedd cymdeithasol'.

Mae Pennod 4 yn cynnwys:

- Amlinelliad o gyd-destun polisi gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gyfer mwy o amrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau drwy sefydliadau cydfuddiannol, cyrchu mewnol, cyd-gomisiynu a pherchnogaeth gymunedol
- Diffiniadau o'r hyn y mae mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a'r trydydd sector yn ei olygu o safbwynt Llywodraeth Cymru gyda dolenni i adnoddau perthnasol
- Rhagor o wybodaeth am y 'ddyletswydd i hyrwyddo' sydd ar awdurdodau lleol a'r pum maes allweddol sy'n hanfodol o ran cefnogi awdurdodau lleol yn y ddyletswydd hon ac fel ffordd i awdurdodau lleol ddangos sut maent yn cyflawni eu dyletswydd h.y. cydgynhyrchu; mesur llwyddiant; creu'r amgylchedd priodol; cynllunio, hyrwyddo a darparu; a chydweithredu



Ble allaf gael rhagor o wybodaeth?

Is the Feeling Mutual? New Ways of Designing and Delivering Public Services in Wales.

Yn seiliedig ar waith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru, cynhyrwyd y papur hwn gan Keith Edwards ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n edrych ar rôl bosibl mentrau cydweithredol a chydffuddiannol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ac yn rhoi golwg gyffredinol ar y sefyllfa bresennol a'r potensial ar gyfer datblygu'r mathau hyn o sefydliadau fel dewis amgen i roi'r gorau i wasanaethau neu eu preifateiddio. Mae'n rhoi enghreifftiau o'r modelau hyn ar waith yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu **cynllun gweithredu mewn ymateb i gynigion yr adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2015.**

Mae adroddiad **Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru'n** cydnabod manteision datblygu economi Gydweithredol a Chydfuddiannol yng Nghymru.

Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yw'r Asiantaeth Cynnal Genedlaethol ar gyfer Datblygu Cwmni Cymdeithasol. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Social Firms UK ac mae wedi ymrwymo i greu cyfleoedd gwaith i bobl dan anfantais trwy ddatblygu a chefnogi cwmnïau cymdeithasol yng Nghymru.


Mae **Canolfan Cydweithredol Cymru** yn asiantaeth datblygu mentrau cydweithredol sy'n gweithio ledled Cymru i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, ariannol a digidol drwy amrywiaeth o brosiectau. Maent yn darparu gwybodaeth a chymorth busnes i fentrau cymdeithasol a sefydliadau cydweithredol ac yn cynnig casgliad o adnoddau perthnasol.

Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** yn darparu cyngor ar sut i sefydlu busnes cymdeithasol, yn ogystal â gwybodaeth am redeg, datblygu ac ariannu busnes cymdeithasol.

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru wedi cynhyrchu canllaw manwl sef **Cyfle i Fusnesau Cymdeithasol Chwarae Rhan** (2016). Yn ogystal â rhoi trosolwg cryno o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n egluro sut gall busnesau cymdeithasol ymgysylltu â'r gwaith o weithredu'r Ddeddf, e.e. fel rhan o asesu poblogaeth; datblygu gwasanaethau ataliol; cydweithredu a phartneriaeth, a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol newydd; cydgynhyrchu; a gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Hefyd, mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cyhoeddi **Cyfeirlyfr o Fusnesau Cymdeithasol yng Nghymru.**

Sefydlwyd **Fforwm Cydweithredol Cymdeithasol Cymru** i ddwyn ynghyd bawb sy'n gweithio i ddatblygu modelau cymorth cydweithredol ym maes gofal cymdeithasol a llesiant. Mae hyn yn hynod bwysig yn dilyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a ddaeth i rym yn Ebrill 2016. Cred y fforwm fod mentrau cydweithredol aml-ddeiliaid dan arweiniad defnyddwyr sy'n cofleidio egwyddorion gweithredol democratiaeth a chydberchnogaeth yn fodolau delfrydol ar gyfer gwireddu dyheadau'r Ddeddf. Mae'r Fforwm yn rhwydwaith o aelodau sy'n hyrwyddo modelau cydweithredol o ofal cymdeithasol a llesiant. Maen nhw'n hyrwyddo arloesedd ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru ar sail gwerthoedd a dulliau cydweithredol o weithio, gyda phwyslais penodol, ond nid eithafol, ar fodolau darparu sy'n cael eu rheoli gan ddefnyddwyr.

Mae **Cydweithredu i Ofalu** yn fenter a ddatblygwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'r Fforwm Cydweithredol Cymdeithasol sy'n ceisio helpu pobl sydd angen gofal yn eu cymunedau i ddod yn bobl sy'n rheoli gofal trwy eu galluogi i gysylltu ag eraill yn eu cymunedau i'w cynorthwyo i sefydlu mentrau gofal cydweithredol. Ariennir y fenter gan Lywodraeth Cymru ac mae'n wasanaeth rhad ac am ddim. Gall gynorthwyo trwy ddod o hyd i aelodau; dewis bwrdd; cytuno ar genhadaeth a



gweledigaeth; datblygu syniad busnes; dod o hyd i gyllid; dewis strwythur cyfreithiol; helpu gyda materion cydymffurfio; recriwtio staff; a rhedeg busnes cydweithredol.

Increasing the Role of Social Business Models in Health and Social Care: An Evidence Review (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2016). Mae'r ddogfen hon yn archwilio tystiolaeth gyfredol am ffactorau sy'n galluogi modelau busnes cymdeithasol i weithredu'n llwyddiannus mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ac i ystyried y goblygiadau i Gymru.

Mae **Project Co-op Cymru dan Gyfarwyddyd Dinasyddion** yn brosiect newydd a ddarperir gan bartneriaeth Anabledd Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru ac a gaiff ei ariannu gan gronfa Awydd am Arloesi y Gronfa Loteri Fawr tan fis Mawrth 2018. Nod y prosiect yw rhoi mwy o lais, dewis a rheolaeth i bobl anabl trwy ddatblygu mentrau cydweithredol dan arweiniad dinasyddion fel dull newydd o reoli taliadau uniongyrchol.

Ym mis Gorffennaf 2015, enwyd Gwynedd yn Sir Menter Gymdeithasol fel rhan o **Raglen Mannau Menter Gymdeithasol y DU**. Gwynedd oedd y sir gyntaf yng Nghymru i dderbyn statws Sir Menter Gymdeithasol. O dan y rhaglen hon, caiff Mannau Menter Gymdeithasol cofrestredig eu cynorthwyo i estyn allan a chynnwys cynghorau lleol, busnesau, elusennau, defnyddwyr a darpar entrepreneuriaid cymdeithasol, gan ddod â nhw at ei gilydd i ddatblygu eu cymunedau menter gymdeithasol. Nod y rhaglen yw hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth a meithrin y marchnadoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol ar lefel leol a chenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen ar gael gan Social Enterprise UK.

Mae **Cyd-gynhyrchu Cymru a Gweithio Gyda Nid I** yn darparu pob math o adnoddau ar gydgyhyrchu gan gynnwys astudiaethau achos o sefydliadau dielw a digwyddiadau hyfforddi.

Mae adroddiad gan y **New Economics Foundation** ar **Commissioning for Outcomes and Co-Production** (2014) yn cyflwyno model ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau fel eu bod yn canolbwyntio ar gomisiynu ar gyfer canlyniadau, yn hyrwyddo cydgynhyrchu ac yn hyrwyddo gwerth cymdeithasol. Mae'r sefydliad wedi datblygu **Fframwaith Hunanasesu** defnyddiol hefyd.

Cyhoeddwyd cyfres o **bum taflen wybodaeth ar fentrau cydweithredol dan ofal defnyddwyr** a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar yr Hyb. Mae'r taflenni gwybodaeth a ddatblygwyd gan Anabledd Cymru a'r Fforwm Cydweithredol Cymdeithasol, yn rhoi trosolwg o fentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr, canllaw i fentrau cydweithredol a arweinir gan ddefnyddwyr o dan y Ddeddf, a gwybodaeth am sut i sefydlu eich menter gydweithredol eich hun.

Mae **Kinder Communities: The Power of Everyday Relationships** (Ferguson, 2016), a gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) ac Ymddiriedolaeth Carnegie y DU, yn ystyried pwysigrwydd perthnasoedd bob dydd a charedigrwydd yn y gymuned. Mae'n defnyddio gwaith Ymddiriedolaeth Carnegie y DU ar y wladwriaeth sy'n galluogi, sy'n rhoi pŵer i gymunedau ac unigolion i lunio a chyfrannu at eu llesiant eu hunain a rhaglen ymchwil JRF ar sut mae cymorth a chefnogaeth bob dydd yn digwydd rhwng unigolion ac o fewn y gymdogaeth. Gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol, mae'r adroddiad yn ystyried pa ffactorau allai alluogi neu atal datblygiad a pharhad perthnasoedd o'r fath a'r gallu i weithredu ar sail caredigrwydd.

Mae Community Catalysts wedi cynhyrchu'r canllaw fuddiol **Marketing Guide for Community Enterprises**.



Mae'r dudalen **Strengthening Community Assets** gan Community Development Cymru yn rhoi dolenni i adnoddau ar ddatblygiad cymunedol a dulliau seiliedig ar asedau.

Mae **Fostering through Social Enterprise** yn sefydliad aelodaeth ar gyfer asiantaethau maethu annibynnol sy'n elusennau cofrestredig, sefydliadau 'dielw', mentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a chwmnïau budd cymunedol. Mae asiantaethau sy'n aelodau yng Nghymru yn cynnwys: Gweithredu dros Blant; Barnardo's; The Foster Care Co-operative; Supported Fostering Services; a'r The Adolescent and Children's Trust (TACT).

Mae gwefan **Menter Busnes Cymdeithasol y Comisiwn Ewropeaidd** yn cynnig casgliad o adnoddau ar entrepreneuriaeth gymdeithasol.

Join the Buy Social Revolution, fideo a ddatblygwyd gan Social Enterprise UK, sy'n rhoi cyflwyniad byr i fentrau cymdeithasol.

Mae **FairShares** yn frand a model datblygu ar gyfer mentrau cymdeithasol hunanlywodraethol sy'n gweithredu o dan Gyfraith Cymdeithasau, Cwmnïau Cydweithredol a Chwmnïau. Dull yn canolbwyntio ar randdeiliaid lluosog sydd ganddo sy'n integreiddio entrepreneuriaid, cynhyrchwyr, defnyddwyr a buddsoddwyr.

Mae **Cyflawni'r Ddyletswydd**, adroddiad gan Barod a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am greu cyfleoedd i bobl sefydlu a rhedeg eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain ac yn cynnwys astudiaethau achos.

Cynhyrchwyd **Co-operation and Co-operatives in the Development of Direct Payments Schemes in Wales** (2013) gan Brifysgol Northumbria ar gyfer Anabledd Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru. Mae'n disgrifio natur, cwmpas ac amrywiaeth mentrau cydweithredol ac yn cynnwys astudiaethau achos o Gymru, Lloegr a Sgandinafia.

Mae gan wefan y **Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth** lawer o adnoddau perthnasol a defnyddiol, gan gynnwys adroddiadau, adolygiadau gwybodaeth a chanllawiau ymarfer, yn ogystal â chanllaw cyflym ar **Commissioning to Develop and Sustain User-led Organisations**.

Mae **User-led Organisations and Commissioning** (2011), adnodd dysgu gan y National Skills Academy for Social Care, yn darparu cyfres o enghreifftiau dysgu ymarfer da.

Mae **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)** yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i'r trydydd sector yng Nghymru. Mae eu gwefan yn cynnig cyngor manwl ar ddechrau arni fel sefydliad yn y sector gwirfoddol, llywodraethu, ariannu, gwirfoddolwyr, cyflogi a rheoli staff, rheoli arian ac asedau eraill, cyrsiau hyfforddi, datblygiadau polisi cyfredol a chyhoeddiadau. Mae'n cynnwys dolenni hefyd i'r holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru a desg gymorth ddwyieithog.

Mae wefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am **Gynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru**.

Cymorth Cymru yw'r corff troswaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth cysylltiedig â thai a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae eu gwefan yn darparu gwybodaeth am ddatblygiadau polisi cyfredol, digwyddiadau hyfforddi, astudiaethau achos a chyhoeddiadau eraill gan gynnwys adroddiad ar **Promotion of Social Enterprise, User-led Services and the Third Sector in Delivering Social Care** (March 2014), a gynhyrchwyd gan Cymorth Cymru gyda chymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

Manylion Cyswilt

Cyngor Gofal Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Ffacs: 029 2038 4764
Minicom: 029 2078 0680

E-bost: hyb@cgymru.org.uk
www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/

 [gettheact](#)  [@DeallyDdeddf](#)

© 2016 Cyngor Gofal Cymru

